

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Ymateb i Ymgynghoriad gan y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer AHNE ar ran Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Cymru

1. Cyflwyniad: AHNE a dyfodol ffermio cynaliadwy yng Nghymru

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (CGAHNE), yw corff llais Byrddau Partneriaethau a Chadwraeth yr AHNE ac mae'n cynrychioli'r Rhwydwaith AHNE ynglŷn â materion o bwysigrwydd cenedlaethol strategol. Gan gynrychioli'r pum AHNE yng Nghymru yn benodol, rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr Ymgynghoriad pwysig hwn: *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*.

Mae gan AHNE a Pharciau Cenedlaethol rolau allweddol yn yr argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth sy'n datblygu. Mae'r agwedd 'tirlun' sydd wedi'i mewnosod yng ngwaith rheoli'r Mannau Gwarchoddedig (MG) hyn yn hanfodol i ddeall achosion, canlyniadau a datrysiadau cymdeithasol, economaidd ac ecolegol cymhleth yr argyfyngau hyn. Cydnabuwyd gwerth AHNE yn hyn o beth mewn dau adroddiad diweddar: Yng Nghymru, yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2018, sef *Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol*:

<https://gov.wales/written-statement-valued-and-resilient-welsh-governments-priorities-areas-outstanding-natural>

ac, yn Lloegr, adroddiad a gyhoeddwyd yn 2019, sef *Lanscapes Review* [Glover Report]:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/83372_6/landscapes-review-final-report.pdf

Yn ddiweddar, nodwyd y posibilrwydd o AHNE yn cyfrannu'n gadarnhaol at dargedau uchelgeisiol yn y meysydd hyn yng Nghyfarfod Blynyddol 2019 y CGAHNE, lle cytunwyd ar y "Ddatganiad Colchester":

https://landscapesforlife.org.uk/application/files/7815/6326/2583/The_Colchester_Declaration.pdf

Mae AHNE, trwy eu dynodiadau gofodol, eu partneriaethau amrywiol a'u cynlluniau rheoli eang (yn crynhoi elfennau diwylliannol, ecolegol, cymdeithasol ac economaidd o gymeriad tirlun) yn hynod sensitif i newidiadau a heriau yn yr amgylchedd gwledig. Felly, mae'r cynlluniau a'r persbectifau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* o ddiddordeb i deulu'r AHNE yng Nghymru.

Dros y genhedlaeth ddiwethaf, mae tystiolaeth wyddonol a chonsensws gwleidyddol wedi cydnabod pwysigrwydd canolog ffermio o fewn elfennau gwledig yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Mae'r argyfyngau cysylltiedig hyn wedi'u heffeithio'n negyddol gan elfennau cynhyrchedd dwysâd amaethyddol a gafodd eu hannog drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) dros yr un cyfnod.

Yn ogystal â'r effaith ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth (ond yn gysylltiedig â hynny), mae'r newidiadau sydyn sydd wedi digwydd o fewn ffermio hefyd wedi cael effaith sylweddol ar gymeriad tirlun, diwylliant, yr iaith Gymraeg a chydnerthedd cymunedol.

Croesewir unrhyw geisiadau i annog ffermwyr i fabwysiadu arferion sy'n ymwneud â buddion rhyng-genedlaethol ac ecolegol yn rhannol o leiaf. Mae'r athroniaeth, uchelgeisiau a'r dyheadau sydd wedi'u mewnosod o fewn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* yn gam i'r cyfeiriad cywir. Mae'r cynllun yn welliant ar geisiadau blaenorol i ddarparu cefnogaeth ffermio sy'n amgylcheddol-sensitif. Fodd bynnag, bydd colli taliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd ar ôl Brexit yn herio'r sector ffermio a bywoliaeth teuluoedd ffermio sydd wedi dibynnu ar gyfundrefnau cymorth a thalu symlach. Ni ellir pwysleisio digon yr angen am empathi, yn enwedig oherwydd bod nifer o deuluoedd ffermio o dan PAC yn aml yn *wrthrychau* newid yn hytrach na *thestunau* newid yn yr amgylchedd a ffermir.

Gyda sylw gofalus ar ddyluniad y cynllun, cyflwyno empathi, a chysondeb ar draws yr amcanion ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (RhANG), rydym yn obeithiol y bydd cynllun cefnogaeth ffermio effeithiol yn bodoli, yn gyson â rôl flaenllaw Cymru mewn polisi cynaliadwyedd. I'r perwyl hwnnw, cynigiwn y sylwebaeth ganlynol i'r Ymgynghoriad a byddem yn croesawu unrhyw gyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ar waith dylunio a chyflwyno'r fenter hon.

2. Safbwyntiau ar y Fframwaith Rheoli Tir Cynaliadwy (RhTC)

Mae'r fframwaith RhTC yn cyflwyno model rhesymegol clir yn cysylltu Buddion, Canlyniadau a Chamau Gweithredu. Mae'n fynegiant defnyddiol o egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (RhANG) Er mwyn i'r fframwaith weithio fwyaf effeithiol, mae angen proses fonitro a gwerthuso gyfannol sy'n caniatáu gwelliant parhaus. Yn hynny o beth, dros amser, bydd angen newid Camau Gweithredu i addasu i ffactorau allanol a dynamiaeth fewnol. Nid yw'r hyblygrwydd hanfodol wedi'i gyflwyno yn y fframwaith hyd yn hyn. Nid llinellol yn unig mo Buddion, Canlyniadau a Chamau Gweithredu yn y byd go iawn, yn hytrach maent yn gilyddol yn eu rhyngberthnasoedd.

Ymddengys bod y fframwaith yn honni lefel o sicrwydd a chydysniad gwyddonol. Nid yw hyn yn gadael llawer o le i'r meysydd RhTC hynny a fyddai angen ymdrin â nhw gan yr 'egwyddor ragofalus'.

Mae cyfraniadau eang ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir wedi'u cynnwys ar lefel gyffredinol. Fodd bynnag, byddai problemau pridd (diraddiad, cywasgiad a cholled) yn cael budd o sylw eglur dan fudd 'amgylcheddol'. Byddai agwedd ecolegol tuag at faterion amgylcheddol (fel yr awgrymir yn RhTC) yn cyfiawnhau gosod pridd ar yr un lefel â'r ardaloedd bioamrywiaeth rhestredig, dŵr ac atmosffer.

Mae buddion a chanlyniadau cymdeithasol yn yr un modd wedi cael sylw ar lefel eang. Fodd bynnag, dylai buddion llai pwysig gael eu cynnwys hefyd (hyd yn oed os ydynt yn anodd eu mesur). Byddai peth sylw ynglŷn â 'gwerth cynhenid' yn cael croeso o bersbectif Mannau Gwarchodedig o leiaf (mae harddwch golygfaol a gwerthoedd esthetig a moesol eraill yn cyfoethogi Canlyniadau Llesiant, yn arbennig ym meysydd iechyd meddwl a chorfforol).

Mae Canlyniadau RhTC wedi'u disgrifio'n dda ar y cyfan. Ond (fel y nodwyd uchod), mae'r adroddiad wedi canolbwyntio ar Ganlyniadau pwysig a meintiol. Mae elfennau o werth harddwch yn amlwg wedi'u heithrio. Mae trafodaeth arwynebol o Ganlyniadau ansoddol cyffredinol (ymdeimlad o harddwch golygfaol, ysbrydoliaeth gan natur a'r ymateb emosiynol canlynol) yn hanfodol os yw gwerthoedd artistig, esthetig a moesol am gael eu hamlygu.

Mae'n gywir canolbwyntio llif incwm ar **ganlyniadau amgylcheddol**, ond gwneir rhai honiadau mewn perthynas â swyddogaeth arferol y farchnad sydd angen rhagor o ystyriaeth. Er enghraifft, mae'r datganiad bod "rhaid agweddau o RhTC eisoes yn cael eu cydnabod gan y farchnad; yn enwedig bwyd" (3.26) yn gwneud yn fach o'r tueddiad i farchnadoedd - yn enwedig rhai rhyngwladol - gael eu dominyddu gan fuddion monopoli a chorfforaethol, ac i sefydlu polisiâu masnach gan unigolion llywodraethol o fewn marchnadoedd drwy fanteision graddfa economi, costau cynhyrchu is a grym gwleidyddol cryfach. I bob pwrpas, gall marchnadoedd 'wthio' elfennau cynaliadwyedd hirdymor angenrheidiol RhTC mewn cynhyrchu bwyd yn hytrach na phroffidioldeb tymor byr a'i fuddiolwyr.

Mae RhTC yn honni ymyriad marchnad trwy ei bwyslais ar wobrwyo Canlyniadau rhyngenedlaethol a rhai sydd heb werth ariannol. Yn hynny o beth, dylid ystyried cynnwys technegau cynhyrchu bwyd amgylcheddol penodol - megis agroecoleg, organig a phermaddiwylliant sydd ar hyn o bryd wedi'u gosod dan anfantais yn y farchnad gan eu costau unedau uwch a lefelau is o ymchwil a datblygiad - dan fecanweithiau cefnogi ffermydd seiliedig ar RhTC. Gall yr addasiad hwn i gategoreiddio 'cynhyrchu bwyd' mewn trafodaeth eiddo cyhoeddus a RhANG arwain at addasiad sylweddol i'r **fframwaith polisi** a fyddai'n gwella effeithiolrwydd y cynllun hwn a chynnal safle rhyngwladol Cymru fel asiant blaenllaw polisi cynaliadwy.

3. Safbwyntiau ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Gwasanaeth Ymgynghori arfaethedig:

Croesewir cynigion ar gyfer Adolygiadau Cynaliadwyedd Ffermio (ACFf) a'r Cynlluniau Cynaliadwyedd Ffermio (CCFf) yn ogystal â gwelliannau ar ffurfiau blaenorol o gefnogaeth ffermio. Fodd bynnag, mae dyheadau uchelgeisiol y cynllun hwn yn gofyn cymhwyso dull gweithredu cynhwysfawr, amlddisgyblaethol a strategol tuag at yr agweddau hyn a dyraniad dilynol cyllid cefnogaeth ffermio.

Yn benodol, mae rôl ac ardystiadau proffesiynol unrhyw ymarferydd ACFf angen ystyriaeth gofalus ar gyfer cyfranoldeb gwell. Os yw ymarferwyr ACFf am ymdrin â holl feysydd perthnasol yr asesiad RhTC (amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol-ddiwylliannol) yna byddai rhyw fath o hyfforddiant ac ardystiad ffurfiol yn ddymunol i wthio'r swyddogaeth y tu hwnt i gwmpas cyfyngedig 'asiant tir' neu 'ymgyngorydd fferm'.

Trwy gyfarwyddyd Gwasanaeth Ymgynghori, byddai ymarferwyr ACFf angen cyfuniad hynod eang o sgiliau i fynd i'r afael â'r holl feysydd yn llawn. Fel arall, gellid cyflwyno ymgynghorwyr cyffredinol ACFf yn y cam Mynegi Diddordeb (MD), gyda chronfa o ymgynghorwyr a thechnegwyr arbenigol yn cael eu dewis a'u cyflwyno i alluogi datblygiad llawnach y ACFf a'r CCFf.

O bersbectif cydnetheredd tirlun (pwnc sy'n destun pryder y Parciau Cenedlaethol ac AHNE), byddai ryw ffurf o gynllunio strategol a gofodol ar gyfer ACFf a CCFf yn ddymunol. Dylai cyfeiriad eglur at feysydd eraill o waith Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru (e.e. Datganiadau Ardaloedd Cyfoeth Naturiol Cymru) lywio ACFf a CCFf. Bydd gan ffermwyr unigol eu pryderon lleol, ond does yr un fferm yn gweithredu mewn unigedd ac mae angen asesu eu hymarferoldeb ar draws elfennau gofodol RhANG. Byddai'n werth teilwra rhai ymyriadau ACFf penodol yn y rhwydwaith AHNE a Pharc Cenedlaethol fel bod cymorth ffermio yn unol â Chynlluniau Rheoli perthnasol a dyheadau ehangach RhANG yn y tirluniau cydlynol a sefydledig hyn. Byddai AHNE Cymru yn croesawu trafodaeth ynglŷn â sut gellid cyflawni hyn, a sut gall Mannau Gwarchoddedig gefnogi a dangos manteision y cynllun hanfodol hwn.

Mewn perthynas â'r cynigion Taliad Ffermio Cynaliadwy (FSPy), croesewir taliadau aml-flynyddol i liniaru anweddolrwydd. Yn yr un modd mae'r gydnabyddiaeth bod angen i Lywodraeth Cymru warantu taliadau lle nad yw'r Canlyniadau wedi'u gwireddu oherwydd materion sy'n allanol i'r fferm neu lle nad yw Gweithgareddau wedi arwain at Ganlyniadau.

Mae'r cam Mynegi Diddordeb arfaethedig yn bwysig ond yn angen peth ystyriaeth. Gall blaenoriaethau ffermwyr fod yn gulach nag anghenion cymdeithasol, tirlun neu RhANG. Er mwyn i'r cynllun fod yn effeithiol, mae angen cyflwyno'r elfennau ehangach hyn o'r cychwyn cyntaf.

Er mwyn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy lwyddo, mae angen hynod glir, fel yr amlinellwyd, am Wasanaeth Ymgynghori swyddogol. Er cysondeb, esmwytho a chryfhau rheoliadau, ac i gynnal annibyniaeth oddi wrth dueddiadau tymor byrrach newidiadau gwleidyddol ar draws Llywodraeth Cymru, gall y **Gwasanaeth Ymgynghori** fod wedi'i leoli o fewn, neu'n ochr yn ochr, â'r corff statudol annibynnol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Fel y cyfryw, gallai CNC oruchwylio'r Cyngor yn uniongyrchol, neu drwy bartneriaid strategol y mae eu harbenigedd yn elfennau RhANG.

4. Ynglŷn â 'Thystiolaeth Achosiaeth' a dyfnder y dull gweithredu

Yn wyneb nifer o amcanion ac amcanion sy'n gwrthdaro ar adegau o fewn datblygiad cynaliadwy, gallai fod yn demtasiwn anelu at ddatrysiadau syml a 'gwelliannau sydyn'. Mae'r pwyslais a roddir ar 'Dystiolaeth Achosiaeth' yn yr adroddiad hwn yn hynod bwysig yn hynny o beth.

Mae argyfwng yr hinsawdd ac argyfwng amgylcheddol yn gymhleth, a dylai'r presgripsiynau sydd wedi'u mewnosod yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gydnabod hyn. Yn ôl y sôn, gall mesurau syml (megis plannu pentwr o goed) gyfaddawdu elfennau eraill o gynaliadwyedd (megis bioamrywiaeth fregus tir amaethyddol Gradd 4 a 5), a gallant hyd yn oed wrth-ddweud dulliau gweithredu atafaeliad carbon eraill (megis cadwraeth ucheldiroedd mawn). Mae sylwadau cyffredinol megis 'right tree; right place' yn ystrydebau, ond dylid cymryd gofal i gadarnhau'r Cynlluniau Cynaliadwyedd Fferm i osgoi gwrthdaro, ac i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer sefydlu 'Tystiolaeth Achosiaeth' yn ystod gwaith monitro a gwerthuso'r cynllun hwn.

Mae ceisiadau i ymyrryd yn gadarnhaol yn yr amgylchedd a ffermir trwy gymorth targedig yn gyson â chyd-destun polisi ehangach Cymru (yn bennaf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Ddeddf yr Amgylchedd gysylltiedig).

Heb fod yn ymwybodol o'r dyraniad adnoddau a fydd yn cefnogi'r cynllun hwn, croesewir proses ddatblygu a chyflwyno fanwl a myfyriol. Mwy na thebyg, nid yw asesiadau anghenion sydyn a (gweddol) rhad yn ddichonadwy - ar ôl annog cenedlaeth o 'amrywiaeth' a chyfnodau difrifol o argyfyngau economaidd ac afiechydon, mwy na thebyg nid oedd llawer o "gynlluniau ffermio syml" yn bodoli yng Nghymru. Fel y cyfryw, gallai proses o flaenoriaethu fod yn hanfodol wrth i nifer o ddyheadau anrhydeddus y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddod wyneb yn wyneb â realiti adnoddau. Yn yr amgylchedd hwnnw, bydd targedu adnoddau'n strategol a thactegol cyn bwysiced â'r gefnogaeth ei hun. Gall tirluniau dynodedig, megis AHNE, lle mae partneriaethau cydlynol a rhesymwaith gofodol eisoes yn bodoli, chwarae rôl allweddol wrth flaenoriaethu adnoddau ar draws holl elfennau'r RhANG, ac wrth gefnogi'r fframwaith RhTC a amlinellwyd.

Ian Rappel,

**Rheolwr Datblygu Cymru
CGAHNE**

ian.rappel@landscapesforlife.org.uk

29^{ain} Hydref 2019